

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

Cymru a diwygio Tŷ'r Arglwyddi

Mai 2012

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 12/1087
Rhif dogfen:12/017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Papur ymchwil

Cymru a diwygio Tŷ'r Arglwyddi

Mai 2012

Owain Roberts

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o gynigion drafft Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn cysylltiad â diwygio Tŷ'r Arglwyddi a chrynodeb o ymatebion cychwynol prif bleidiau'r DU i'r cynigion hynny.

Mae'r papur hefyd yn rhoi crynodeb o sut y caiff buddiannau Cymru eu cynrychioli yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd, ac yn nodi dadleuon y rhai sydd o'r farn y dylid diwygio Tŷ'r Arglwyddi ar sail diriogaethol.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Crynodeb

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o gynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn cysylltiad â diwygio Tŷ'r Arglwyddi a chrynodeb o ymatebion cychwynnol prif bleidiau'r DU i'r cynigion hynny. Mae'r papur hefyd yn rhoi crynodeb o sut y caiff buddiannau Cymru eu cynrychioli yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd, ac yn nodi dadleuon y rhai sydd o'r farn y dylid diwygio Tŷ'r Arglwyddi ar sail diriogaethol.

Cynnwys

| | | |
|------|---|-----------|
| 1. | Cyflwyniad..... | 1 |
| 2. | Bil Drafft Tŷ'r Arglwyddi | 3 |
| 2.1. | Cyd-bwyllgor ar y Bil drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi..... | 3 |
| 2.2. | Ymatebion cychwynol..... | 5 |
| 2.3. | Camau nesaf | 6 |
| 3. | Tŷ'r Arglwyddi a Chymru | 7 |
| 3.1. | Cynrychiolaeth o Gymru yn Nhŷ'r Arglwyddi | 7 |
| 3.2. | Cynrychiolaeth ranbarthol yn Nhŷ'r Arglwyddi ar ei newydd wedd | 8 |
| A. | Cyd-bwyllgor ar y Bil drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi – aelodau 1 1 | |
| B. | Cyd-bwyllgor ar y Bil drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi – yr aelodau a ymrwymodd i lunio adroddiad amgen..... | 13 |

Cymru a diwygio Tŷ'r Arglwyddi

1. Cyflwyniad

Mae "Rhaglen Lywodraethu" Llywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig yn cynnwys yr ymrwymiad a ganlyn:

... establish a committee to bring forward proposals for a wholly or mainly elected upper chamber on the basis of proportional representation. The committee will come forward with a draft motion by December 2010. It is likely that this will advocate single long terms of office. It is also likely that there will be a grandfathering system for current Peers. In the interim, Lords appointments will be made with the objective of creating a second chamber that is reflective of the share of the vote secured by the political parties in the last general election.¹

Yn dilyn hyn, cyflwynwyd y Bil Drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi² ("y Bil drafft") gan Lywodraeth y DU, ar 17 Mai 2011, a oedd yn cynnig gwneud newidiadau ar raddfa eang i aelodaeth siambr uchaf Senedd y DU.

Ar ôl cyflwyno'r Bil drafft ac yng ngoleuni datblygiadau cyfansoddiadol pellach ers ei gyhoeddi, yn arbennig o ran cynlluniau i gynnal refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban, dywedodd y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru ar 30 Mawrth 2012:

I believe that the four nations of the UK should have equal membership of the House of Lords on a territorial basis. This would mirror arrangements for the Senate in the United States which ensures an equally weighted voice for each state of the Union regardless of population. The House of Commons, like the House of Representatives, would continue as the Chamber which reflects population share – so there could be no question of England's voice being diminished within the wider constitutional settlement. I believe an arrangement along these lines could help bind together the four nations of the UK.³

Yn yr un araith, mynegodd Prif Weinidog Cymru ei anfodlonrwydd fod diwygiadau cyfansoddiadol ar lefel y DU yn cael eu cynnig heb unrhyw gyfeiriad at ddatblygiadau cyfansoddiadol eraill yng Nghymru, yng Ngogledd Iwerddon nac yn yr Alban. Dywedodd, er bod posibilrwydd y bydd y cam i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi yn rhan bwysig o'r adolygiad cyffredinol o drefniadau cyfansoddiadol yn y DU ... yn syml, nid yw'n ymddangos bod y cysylltiad hwn wedi'i wneud.⁴

¹ Llywodraeth y DU [The Coalition: our programme for government](#) (Saesneg yn unig), Mai 2010, tudalen 27

² Swyddfa'r Cabinet, [House of Lords Reform Draft Bill](#), (Saesneg yn unig), 17 Mai 2012

³ Gwefan Click on Wales, [First Minister's speech: Wales and the future of the United Kingdom](#), (Saesneg yn unig), 30 Mawrth 2012

⁴ Ibid

Darparwyd eglurhad pellach ynghylch safbwynt Prif Weinidog Cymru gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i gyhoeddi adroddiad y Cyd-bwyllgor ar y Bil drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi, ar 23 Ebrill 2012:

The First Minister's views on Lords reform are clear - firstly, it should be considered as part of a comprehensive look at the constitutional arrangements for the UK as a whole, rather than in isolation; and secondly, there should be a territorial dimension to the membership of the House of Lords so that all four nations of the UK are strongly represented at that level. The House of Commons would continue as the Chamber which reflects population share - so there could be no question of England's voice being diminished within the wider constitutional settlement.⁵

Diben y papur hwn yw rhoi trosolwg o gynigion Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â diwygio Tŷ'r Arglwyddi a chrynhai ymatebion cychwynnol prif bleidiau'r DU i'r cynigion hynny. Mae'r papur hefyd yn rhoi crynodeb o sut y mae buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd, ac yn nodi dadleuon y rhai sydd o'r farn y dylid diwygio Tŷ'r Arglwyddi ar sail diriogaethol.

⁵ Wales Online, [First Minister Carwyn Jones receives House of Lords reform boost](#), (Saesneg yn unig) 23 Ebrill 2012

2. Bil Drafft Tŷ'r Arglwyddi

Cyflwynwyd y Bil drafft a Phapur Gwyn i gyd-fynd ag ef, gan y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS, y Dirprwy Brif Weinidog, ar 17 Mai 2011. Cyhoeddwyd y Bil drafft ar ôl creu Pwyllgor y Llywodraeth ar Ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi (yr oedd ei aelodau'n dod o feinciau blaen Llywodraeth y DU a'r brif wrthblaid yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi), a gyfarfu rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2010. Wrth ymateb i gyhoeddi'r Bil drafft, fodd bynnag, fe'i gwnaed yn glir gan Arweinydd y Blaid Lafur yn Nhŷ'r Arglwyddi mai Bil y Llywodraeth oedd y Bil, ac nad y pwyllgor hwnnw oedd wedi'i lunio.⁶

Mae'r cynigion ar gyfer diwygio yn cynnwys:

- Creu Tŷ'r Arglwyddi sydd â 300 o aelodau "llawn-amser", y byddai 240 (80 y cant) ohonynt wedi'u hethol a 60 arall (20 y cant) wedi'u penodi.
- Cael hyd at 12 o esgobion Eglwys Lloegr, a fyddai'n eistedd fel aelodau yn rhinwedd eu swydd.
- Dewis Gweinidogion o blith yr aelodau etholedig yn unig.
- Caniatáu i'r Prif Weinidog benodi pobl sy'n aelodau o Dŷ'r Arglwyddi am gyfnod llawn eu penodiad yn unig i wasanaethu fel Gweinidogion.
- Yr aelodau i wasanaethu am un tymor o 15 mlynedd (hyd cyfnod tair senedd).
- Cynnal etholiadau ar gyfer traean y Tŷ ar y tro, a'u cynnal o dan y drefn Bleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV).

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch sut y byddai modd diwygio'r Bil drafft i ddarparu ar gyfer Tŷ'r Arglwyddi sy'n cynnwys 100 y cant o aelodau etholedig yn y dyfodol.

Er na sonnir am Gymru'n benodol yn y Bil drafft na'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef, mae'r Arglwydd Wigley yn dyfalu y byddai Cymru, mae'n debyg, yn gyfwerth ag un etholaeth aml-aelod â phedwar aelod newydd o dan y trefniadau arfaethedig ac, erbyn 2025, y byddai gan Gymru ei nifer lawn o 12 o aelodau etholedig yn yr Ail Siambr newydd".⁷

2.1. *Cyd-bwyllgor ar y Bil drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi*

Ystyriodd Cyd-bwyllgor ar y Bil drafft, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Richard o Rydaman, ac sy'n cynnwys 26 o aelodau a benodwyd o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, ddarpariaethau'r Bil drafft, a chyhoeddodd ei adroddiad ar 23 Ebrill

⁶ Mae rhagor o wybodaeth am y Bil drafft a'r Papur Gwyn ar gael yn y Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Reform of the House of Lords: the Coalition Agreement and further developments](#), (Saesneg yn unig), 2 Mehefin 2011

⁷ Agenda, *Dafydd Wigley: Ni fydd tyrccwn yn pleidleisio o blaid y Nadolig*, Gwanwyn 2012

2012.⁸ Mae rhestr o enwau aelodau'r Cyd-bwyllgor wedi'i chynnwys fel atodiad i'r papur hwn. Gwnaeth yr argymhellion a ganlyn:

- Roedd yn cefnogi defnyddio'r system STV ar gyfer ethol aelodau i'r tŷ uchaf, y cyfnod gwasanaethu o 15 mlynedd ar gyfer aelodau a rhaniad o 80/20 rhwng aelodau etholedig ac aelodau a benodwyd.
- Fodd bynnag, roedd yn anghytuno â'r llywodraeth ynghylch maint y siambr, ac yn argymhell sefydlu siambr uchaf newydd sy'n cynnwys 450 o aelodau yn hytrach na'r 300 a nodwyd yn y lle cyntaf yn y Bil Drafft.
- Roedd yn argymhell y dylai'r Aelodau gael cyflog blynyddol o £50,000 yn hytrach na'r lwfans mynychu presennol.
- Roedd y mwyafrif o aelodau'r pwyllgor hefyd yn argymhell y dylai'r cynigion ar gyfer diwygio hefyd fod yn amodol ar bleidlais gadarnhaol mewn refferendwm, cyn dod yn weithredol.

Nid oedd y pwyllgor yn unfryd ei farn, fodd bynnag, a phleidleisiodd naw o'r 26 o aelodau'r pwyllgor yn erbyn arglwyddi etholedig, ac roedd wyth aelod yn gwrthwynebu cynnal refferendwm.⁹

Lluniwyd adroddiad amgen hefyd gan 12 aelod o'r Cyd-bwyllgor, fel ychwanegiad at adroddiad swyddogol y Cyd-bwyllgor. Roedd yr adroddiad amgen yn argymhell y dylid sefydlu confensiwn cyfansoddiadol i ystyried diwygio Tŷ'r Arglwyddi ac y dylai hwn gynnwys:

... members of both the House of Commons and the House of Lords, plus a number of non-Parliamentarians, including specialist academic experts; representatives of other forms of governance in the United Kingdom, including from the Scottish Parliament, the Welsh Assembly, the Northern Ireland Assembly and local government; representatives of faith communities; representatives of non-governmental policy bodies; representatives of wider society, including business and employee groups, charities and others.¹⁰

Roeddent yn nodi hefyd y dylid rhoi'r dasg a ganlyn i'r confensiwn:

... considering in depth the issues involved in further reform of the House of Lords, and bringing forward proposals. The issues involved would include the impact on the House of Commons of any reform of the House of Lords, the method of any elections to the House of Lords, including indirect elections, the relationship between the two Houses of Parliament, the impact of reform on the devolved assemblies, and the impact on Parliament, including the House of Lords, of any developments in the devolved assemblies, including any referendum in Scotland on independence.¹¹

⁸ Senedd y DU, [Joint Committee on the Draft House of Lords Reform Bill](#), (Saesneg yn unig), 23 Ebrill 2012

⁹ Newyddion BBC, [House of Lords should be 80% elected - MPs and peers' report](#), (Saesneg yn unig), 23 Ebrill 2012

¹⁰ Y Cyd-bwyllgor ar y Bil Drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Cyffredin, [House of Lords Reform: An Alternative Way Forward](#), (Saesneg yn unig), 23 Ebrill 2012, argymhelliad 3

¹¹ Ibid, argymhelliad 4

Un o'r 12 aelod a ymrwymodd i'r adroddiad amgen oedd yr Arglwydd Hennessy o Nympsfield, a awgrymodd y dylid ystyried ffederaleiddio fel dewis arall i'r trefniadau presennol:

Federalism was something we thought was terrific for everybody else. But we've always had an asymmetrical constitution in this country and we rather like it that way. We pride ourselves on being quirky. But certainly the federal notion in [this] context [would] have to be looked at.¹²

2.2. *Ymatebion cychwynnol*

Roedd y Blaid Geidwadol,¹³ y Blaid Lafur¹⁴ a'r Democratiaid Rhyddfrydol¹⁵ oll yn cynnwys ymrwymadau i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi yn eu manifestos ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2010. Serch hynny, ers cyflwyno'r Bil drafft a chyhoeddi adroddiad y Cyd-bwyllgor, bu diffyg consensws ar y mater rhwng y prif bleidiau gwleidyddol ac o fewn y pleidiau hynny.

Mae llawer o uwch Aelodau Seneddol ac Aelodau Seneddol meinciau cefn y Blaid Geidwadol wedi nodi eu hanesmwythyd ynghylch y cynigion newydd, gan gynnwys y Gwir Anrhydeddus Kenneth Clarke AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, sydd wedi dweud na fyddai'r Blaid Geidwadol o blaid diwygio Tŷ'r Arglwyddi yn ystod cyfnod y senedd bresennol.¹⁶ Awgrymodd hefyd, er gwaethaf penderfyniad y Democratiaid Rhyddfrydol i yrru'r diwygiadau ymlaen, y byddai hyd at 6 o aelodau'r cabinet o blaid gohirio unrhyw newid.¹⁷

Mae'r Gwir Anrhydeddus David Cameron AS, y Prif Weinidog, a'r Dirprwy Brif Weinidog¹⁸ wedi dangos eu cefnogaeth i'r cynigion, er iddynt nodi nad ydynt o blaid cynnal refferendwm ar y mater o ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi, fel yr awgrymwyd gan y Cyd-bwyllgor. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi, fodd bynnag, er nad oedd wedi'i ddarbwylllo bod angen refferendwm, na fyddai'n barod i ddiystyru'r posibilrwydd o gynnal refferendwm yn gyfan gwbl.¹⁹

Yn groes i hynny, mae'r Gwir Anrhydeddus Glyn Davies AS, yr Aelod Seneddol dros Sir Drefaldwyn ac Ysgrifennydd Seneddol Preifat i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wedi mynnu y dylid cynnal refferendwm ar Dŷ'r Arglwyddi etholedig, ac roedd yn ofni'r gwrthdaro a fyddai'n deillio pe bai dwy senedd etholedig yn cystadlu am gyfreithlondeb.²⁰

¹² Wales Online, [First Minister Carwyn Jones receives House of Lords reform boost](#), (Saesneg yn unig), 23 Ebrill 2012

¹³ Y Blaid Geidwadol, [The Conservative Manifesto 2010: Invitation to join the government of Britain](#), (Saesneg yn unig), Ebrill 2010, tudalen 67

¹⁴ Y Blaid Lafur, [Labour Party Manifesto 2010: A future fair for all](#), (Saesneg yn unig), Ebrill 2010, tudalennau 9:2 i 9:3

¹⁵ Y Democratiaid Rhyddfrydol, [Liberal Democrat Manifesto 2010](#), (Saesneg yn unig), Ebrill 2010, tudalen 88

¹⁶ Golwg 360, [Ceidwadwyr 'ddim am ailwampio Tŷ'r Arglwyddi'](#), 22 Ebrill 2012

¹⁷ Ibid

¹⁸ Newyddion BBC, [Nick Clegg sceptical on Lords reform referendum](#), (Saesneg yn unig), 19 Ebrill 2012

¹⁹ Newyddion BBC, [House of Lords should be 80% elected - MPs and peers' report](#), (Saesneg yn unig), 23 Ebrill 2012

²⁰ Wales Online, [Y Ceidwadwr Cymreig, Glyn Davies AS yn mynnu refferendwm ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi](#), (Saesneg yn unig) 23 Ebrill 2012

Mae'r Blaid Lafur hefyd yn cefnogi ail siambr sydd wedi'i hethol yn gyflawn ac mae'n cytuno â'r Cyd-bwyllgor y dylid cynnal refferendwm ar y cynigion.²¹

Cyflwynwyd awgrym ychwanegol ar sut y dylid diwygio Tŷ'r Arglwyddi hefyd gan yr Arglwydd Adonis, cyn Ysgrifennydd Gwladol y Blaid Lafur dros Drafnidiaeth ac arglwydd am oes. Teimlai ef y dylai ail siambr ar ei newydd wedd, gael ei symud i leoliad y tu allan i Lundain:

If the House of Lords is going to be reformed next year, part of the reform should be to move it out of London to a city in the Midlands or the north, perhaps next to the relocated BBC in MediaCity in Salford Quays ...

Half of our national politicians would then assemble well away from 'Planet London'. The public purse would make a net saving by selling the vast and expensive property portfolio the Lords has been acquiring to house its 850 members along Millbank and the surrounding streets.²²

Wrth ddadansoddi adroddiad y Cyd-bwyllgor a'r ymatebion a gafwyd i gynigion y llywodraeth, roedd Dr Meg Russell o Uned Gyfansoddiadol, Coleg Prifysgol Llundain, yn dadlau mewn cysylltiad â'r mater o gynnal refferendwm:

Now that the joint committee has recommended that the government's proposals be put to a referendum, pressure to concede this will be irresistible. The referendum already has the support from the Labour leadership and many Conservative backbench MPs. If pressed to a vote on the issue in the Commons, the government will almost certainly lose.²³

2.3. *Camau nesaf*

Mae'r Bil ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi wedi'i gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer sesiwn 2012-13.²⁴ Yn ôl nodyn briffio Swyddfa'r Cabinet ar Araith y Frenhines, bydd y Bil yn sicrhau bod Tŷ'r Arglwyddi ar ei newydd wedd yn well adlewyrchiad o gymdeithas gan fydd yr aelodaeth wedi'i selio ar ranbarthau a chenhedloedd y DU.²⁵ Nid oes dyddiad wedi'i ddarparu hyd yma ar gyfer cyflwyno'r Bil. Fodd bynnag, awgrymodd Dr Meg Russell y gallai Bil o'r fath fethu, oherwydd byddai gwrthwynebiad sylweddol iawn iddo yn y ddau Dŷ ac y byddai, o bosibl, yn cymryd bron i holl amser y sesiwn seneddol.²⁶

²¹ Ibid

²² The Guardian, [Move House of Lords out of London, says Lord Adonis](#), 19 Ebrill 2012

²³ Uned Gyfansoddiadol, Coleg Prifysgol Llundain, [Hysbysiad i'r wasg: Lords reform unavoidable, says Constitution Unit](#), 23 Ebrill 2012

²⁴ Newyddion BBC, [Queen's Speech 2012 at-a-glance: Bill-by-bill](#), (Saesneg yn unig), 9 Mai 2012

²⁵ Swyddfa'r Cabinet, [The Queen's Speech 2012 - background briefing notes](#), (Saesneg yn unig), 9 Mai 2012

²⁶ Uned Gyfansoddiadol, Coleg Prifysgol Llundain, [Hysbysiad i'r wasg: Constitutional changes to feature strongly in Queen's Speech](#), (Saesneg yn unig), 8 Mai 2012

3. Tŷ'r Arglwyddi a Chymru

Nid oes gan Dŷ'r Arglwyddi rôl bendant mewn perthynas â Chymru. Fel yr esbonia Eluned Morgan, cyn Aelod Cymru o Senedd Ewrop, sef y Farwnes Morgan o Drelai erbyn hyn:

There is no formal link or channel for discussion [in the House of Lords] with the National Assembly, let alone the people of Wales.²⁷

Nid oes Pwyllgor Dethol penodol yn Nhŷ'r Arglwyddi sy'n ystyried materion Cymreig, nac unrhyw Uwch-bwyllgorau, tebyg i'r Uwch-bwyllgor Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin, lle bydd materion sy'n berthnasol i Gymru'n cael eu gwyntyllu a'u trafod. Fodd bynnag, cafwyd sylwadau rheolaidd gan [Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi](#) (Saesneg yn unig) ar y broses o drosglwyddo pwerau i'r Cynulliad o dan Ran 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*²⁸ pan oedd ar waith yn ystod y Trydydd Cynulliad (rhwng 2007 a 2011).

Er gwaethaf hyn, mae Tŷ'r Arglwyddi yn parhau i fod yn fforwm cyffredinol i drafod materion a buddiannau Cymru. Mae gan aelodau presennol Tŷ'r Arglwyddi gronfa sylweddol o wybodaeth am faterion yn ymwneud â Chymru a'r Cynulliad, ac mae hefyd ganddynt arbenigedd yn y maes. Mae un Aelod presennol o'r Cynulliad, yr Arglwydd Elis-Thomas, a thri chyn Aelod o'r Cynulliad, sef yr Arglwydd German, yr Arglwydd Wigley a'r Farwnes Randerson, yn aelodau o Dŷ'r Arglwyddi.

3.1. Cynrychiolaeth o Gymru yn Nhŷ'r Arglwyddi

Nid yw canfod pwy yw cynrychiolwyr Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi yn dasg syml. Roedd Nodyn Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi ar gynrychiolaeth ranbarthol yn Nhŷ'r Arglwyddi²⁹, yn nodi bod prif gartref 24 o'r 614 o aelodau presennol Tŷ'r Arglwyddi ble mae manylion eu cyfeiriadau cartref ar gael,³⁰ yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn yn bedwar y cant o gyfanswm nifer yr arglwyddi yn y siambr uchaf (mae poblogaeth Cymru yn 4.9 y cant o gyfanswm poblogaeth y DU).

Yn 2008, nododd y 'New Local Government Network':

In Wales many counties only register one or two Peers, however Powys is represented by seven. Overall Wales is under-represented with just under 20% fewer Peers than it should have given the size of the population.³¹

²⁷ Agenda, *Eluned Morgan: Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi*, Gwanwyn 2012

²⁸ *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32) (Saesneg yn unig)

²⁹ Senedd y DU, *House of Lords Library Note: Regional representation in the House of Lords*, (Saesneg yn unig), 6 Mawrth 2012

³⁰ Mae cyfanswm presennol aelodaeth Tŷ'r Arglwyddi yn fwy na 800 – gweler UK Parliament, *Lords by type and party* am ragor o wybodaeth.

³¹ New Local Government Network, *Lords of our manor? How a reformed House of Lords can better represent the UK* (Saesneg yn unig) Medi 2008

Mae'n bosibl nad yw'r ffigur hwn yn adlewyrchiad teg o nifer yr arglwyddi a fydd yn trafod ac yn codi materion yn ymwneud â Chymru, fodd bynnag, gan fod y Nodyn Llyfrgell yn diystyru arglwyddi nad ydynt yn byw yng Nghymru, gan gynnwys yr arglwyddi hynny sydd â chysylltiadau cryf â Chymru o hyd, ac sy'n barod, efallai, i godi materion yn ymwneud â Chymru a'u trafod.

3.2. *Cynrychiolaeth ranbarthol yn Nhŷ'r Arglwyddi ar ei newydd wedd*

Er gwaethaf galwadau diweddar Prif Weinidog Cymru am ddimensiwn diriogaethol i aelodaeth Tŷ'r Arglwyddi ar ei newydd wedd, nid yw darparu elfen ranbarthol i ail siambr seneddol, yn y DU nac mewn mannau eraill, yn syniad newydd. Yn ei erthygl "Bicameralism and Representative Democracy", dywed Rafal Heydel-Mankoo, o ran gwledydd ffederal:

... many federations, most of which cover large geographic areas, allocate a disproportionate number of upper house seats to less-populated regions (the United States and Australia accord all states equal representation in their senates, despite huge variations in the size of state populations).³²

O ran y DU, argymhellodd y Comisiwn Brenhinol ar Dŷ'r Arglwyddi (Comisiwn Wakeham) yn y flwyddyn 2000, y dylai cyfran o aelodau ail siambr ar ei newydd wedd gynrychioli rhanbarthau a chenhedloedd y DU. Nid oedd, fodd bynnag, yn argymhell y dylai'r siambr ddod naill ai'n ddeddfwrfa ffederal, nac yn fforwm ar gyfer cyd-gysylltu rhwng y cenhedloedd. Yn hytrach, cynigiai'r Comisiwn y dylid creu pwyllgor newydd ar faterion datganoli.³³ Yn dilyn hynny, gwrthodwyd cynigion y Comisiwn gan y llywodraeth Lafur ar y pryd.³⁴

Er nad yw'r DU yn wlad ffederal, dywedodd Dr Meg Russell, wrth ysgrifennu ym 1999, bod datblygiad datganoli yn y DU yn golygu bod gwleidyddiaeth fwy tiriogaethol yn dod i'r amlwg, ac mae'n naturiol felly, y dylid ystyried o leiaf, cyflwyno ail siambr diriogaethol yn lle Tŷ'r Arglwyddi, neu elfen diriogaethol gref mewn unrhyw dŷ ar ei newydd wedd.³⁵ Daeth i'r casgliad, fodd bynnag, fod patrwm anwastad datganoli yn y DU yn ei gwneud yn anodd cynllunio'r fath siambr, ac y byddai natur "anghymesur" datganoli yn y DU yn cyflwyno heriau penodol o ran cynllunio ail siambr diriogaethol ar gyfer Prydain.³⁶

³² Heydel-Mankoo, R, *Bicameralism & Representative Democracy: An international Perspective*, in Blond, Phillip ed., (2012), *Our House: Reflections on Representation and Reform in the House of Lords*, (Saesneg yn unig), ResPublica: Llundain

³³ The Guardian, *The Wakeham commission recommendations: Key points for a new second chamber*, 20 Ionawr 2000

³⁴ New Local Government Network, *Lords of our manor? How a reformed House of Lords can better represent the UK*, (Saesneg yn unig), Medi 2008

³⁵ Russell, M. (1999). *Representing the Nations and Regions in a New Upper House* (Saesneg yn unig), Uned Gyfansoddiadol, Prifysgol Llundain

³⁶ Ibid

Yn dilyn datblygiadau cyfansoddiadol diweddar yn y DU, mae rhai wedi awgrymu y dylai unrhyw gamau i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi gynnwys elfen diriogaethol, er mwyn cynrychioli buddiannau rhannau eraill y DU, yn well. Roedd y 'New Local Government Network' yn argymhell yn 2008:

... a reformed House of Lords which reflected a better balance of regional experience and representation would allow better scrutiny of our legislative process. With an intake currently out of sync with the rest of Britain, the democratic legitimacy and accountability of the Second Chamber must be called into question.³⁷

Codwyd materion o'r fath hefyd gan Mark Williams AS, yr Aelod Seneddol dros Geredigion, yn dilyn cyhoeddi'r Bil drafft, a'r ddadl ddilynol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mai 2011:

Mr Mark Williams (Ceredigion) (LD): Does my right hon. Friend see these proposals as a means of empowering the voices of the devolved nations and the English regions? Manifestly, that will be achieved by electing people, rather than hand-picking appointees, in order to achieve balance across the country as a whole.

The Deputy Prime Minister: Clearly, a proportional electoral system, whichever one is finally settled on, would be reflective of opinion across the whole of the United Kingdom, so people across the United Kingdom can look forward to this as providing a greater reflection of opinions the length and breadth of the land.³⁸

Ers cyflwyno'r Bil drafft, mae eraill (yn ogystal â Phrif Weinidog Cymru) wedi awgrymu y dylai'r cam i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi gynnwys elfen diriogaethol. Dywedodd y Farwnes Morgan:

I am at one with the First Minister in thinking that we should try and elaborate a more regional form of representation in the chamber. In some way the red benches should reflect the changing nature of our constitutional set up in the UK. If Scotland were to gain further powers, we would need serious reassurance that the Welsh voice it to be heard in a sea of English MPs and Lords. Certainly the current structure is totally anachronistic. It does not cater for any member living outside London who is not of pensionable age and who therefore has no alternative income. And it certainly takes no account of childcare considerations. It is little wonder that 82 per cent of the membership is over 60. The time is ripe to reform the House of Lords to ensure that it better reflects modern society.³⁹

Cyflwynwyd y sylwadau a'r awgrymiadau a ganlyn, hefyd, gan yr Arglwydd Wigley, mewn perthynas â sylwadau Prif Weinidog Cymru:

Carwyn Jones has suggested that Westminster's Second Chamber might become a federal chamber for the UK with responsibility for defence, foreign affairs and broad economic policy. His suggestion arose in the context of Scotland securing independence. It was perhaps easier for him to postulate the idea for what is still a hypothetical situation. He is however, aware of discussion at Westminster that if 'devolution-max' gained momentum – a

³⁷ New Local Government Network, *Lords of our manor? How a reformed House of Lords can better represent the UK*, (Saesneg yn unig), Medi 2008

³⁸ [HC Deb 17 May 2011 c164](#)

³⁹ Agenda, *Eluned Morgan: Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi*, Gwanwyn 2012

model supported by former Tory Prime Minister John Major in a keynote speech last July – some envisage the Second Chamber as a UK quasi-federal chamber ...

A federal Second Chamber must surely be an option if ‘devolution-max’ emerges from Scotland’s referendum debate.

If the UK has a future, creative thought must be given to the powers devolved to Scotland, Wales and Northern Ireland – and indeed England. Such consideration may change discussion about the Second Chamber. But if the English body politic isn’t prepared to contemplate this, it must accept partial responsibility for the approaching break-up of the United Kingdom.⁴⁰

⁴⁰ Agenda, *Dafydd Wigley: Ni fydd tyrcwn yn pleidleisio o blaid y Nadolig*, Gwanwyn 2012

A. Cyd-bwyllgor ar y Bil drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi – aelodau

| Aelod | Plaid |
|--------------|--------------|
|--------------|--------------|

Arglwyddi

| | |
|--|--------------------------------|
| Y Arglwydd Norton o Louth | Y Blaid Geidwadol |
| Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Shephard o Northwold | Y Blaid Geidwadol |
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Trefgarne | Y Blaid Geidwadol |
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Trimble | Y Blaid Geidwadol |
| Yr Arglwydd Tyler | Y Democratiaid Rhyddfrydol |
| Y Farwnes Scott o Needham Market | Y Democratiaid Rhyddfrydol |
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Richard o Rydaman | Y Blaid Lafur |
| Y Farwnes Andrews | Y Blaid Lafur |
| Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Symons o Vernham Dean | Y Blaid Lafur |
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Rooker | Llafur Annibynnol |
| Y Farwnes Young o Hornsey | Aelod o'r meinciau croes |
| Yr Arglwydd Hennessy o Nympsfield | Aelod o'r meinciau croes |
| Esgob Caerlŷr | Dim cysylltiad ag unrhyw blaid |

Aelodau Seneddol

| | |
|------------------|-------------------|
| Gavin Barwell AS | Y Blaid Geidwadol |
| Oliver Heald AS | Y Blaid Geidwadol |
| Eleanor Laing AS | Y Blaid Geidwadol |

| | |
|--------------------------------------|-----------------------------------|
| Dr Daniel Poulter AS | Y Blaid Geidwadol |
| Laura Sandys AS | Y Blaid Geidwadol |
| John Stevenson AS | Y Blaid Geidwadol |
| John Thurso AS | Y Democratiaid Rhyddfrydol |
| Y Gwir Anrhydeddus Tom Clarke CBE AS | Y Blaid Lafur |
| Ann Coffey AS | Y Blaid Lafur |
| Bill Esterson AS | Y Blaid Lafur |
| Tristram Hunt AS | Y Blaid Lafur |
| Y Gwir Anrhydeddus Malcolm Wicks AS | Y Blaid Lafur |
| Dr William McCrea AS | Y Blaid Unoliaethol Ddemocrataidd |

B. Cyd-bwyllgor ar y Bil drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi – yr aelodau a ymrwymodd i lunio adroddiad amgen

| Aelod | Plaid |
|--------------|--------------|
|--------------|--------------|

Arglwyddi

| | |
|--|--------------------------------|
| Yr Arglwydd Norton o Louth | Y Blaid Geidwadol |
| Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Shephard o Northwold | Y Blaid Geidwadol |
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Trefgarne | Y Blaid Geidwadol |
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Trimble | Y Blaid Geidwadol |
| Y Farwnes Andrews | Y Blaid Lafur |
| Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Symons o Vernham Dean | Y Blaid Lafur |
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Rooker | Llafur Annibynnol |
| Yr Arglwydd Hennessy o Nympsfield | Aelod o'r meinciau croes |
| Esgob Caerlŷr | Dim cysylltiad ag unrhyw blaid |

Aelodau Seneddol

| | |
|--------------------------------------|-------------------|
| Oliver Heald AS | Y Blaid Geidwadol |
| Eleanor Laing AS | Y Blaid Geidwadol |
| Y Gwir Anrhydeddus Tom Clarke CBE AS | Y Blaid Lafur |